

Y PWYLLGOR PERSONÉL

28 Mawrth 2018

Yn bresennol: Y Cynghorydd DGM James (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Mrs D Clements, Mrs G Hayward, y Dr R
Heath-Davies, Mrs J James, y Cynghorydd PJ Morgan, y
Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12.30pm – 12.40pm)

1. Ymddiheuriad

Derbyniwyd ymddiheuriad am fethu â bod yn bresennol oddi wrth y Cynghorydd M Evans.

2. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017.

4. Gwahardd y cyhoedd

PENDERFYNWYD gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y gallai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen12 A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2972 gael ei datgelu.

5. Swyddog Monitro

Dywedodd y Prif Weithredwr, fel y'i cyfarwyddwyd gan y Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017, y cynhaliwyd trafodaethau ag awdurdodau lleol cyfagos ynghylch eu gallu i ddarparu gwasanaethau Swyddog Monitro i'r Awdurdod. O ganlyniad, cafwyd mynegiant o ddiddordeb, a dosbarthwyd y manylion i'r Pwyllgor, ynghyd â chopi o'r disgrifiad swydd.

Cytunodd yr Aelodau y dylid gwahodd yr ymgeisydd am gyfweiliad, ar yr amod ei fod yn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol. Y bwriad oedd cynnal y cyfweiliad ar 18 Ebrill 2018.

PENDERFYNWYD fod y Pwyllgor Personél yn cynnal y cyfweiliad am rôl y Swyddog Monitro ar 18 Ebrill 2018.

